CYFRES A1

# amserbeibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran ______ Dyddiad geni ______

Enw ______

Cyfeiriad ______

______

Enw Arweinydd y Dosbarth ______



Gwersi Beiblaidd o lyfr Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

## Gwers 1 Yn y Dechrau - Duw yn creu y byd.



DARLLENWCH
Genesis 1: 1-10

Ydych chi erioed wedi edrych i fyny i'r awyr ar noson glir, oer a meddwl pam y cafodd y miliynau o sêr a'r planedau eu creu? Ydych chi wedi meddwl pam y mae pobl ac anifeiliaid yn byw yn y byd? Mae'r atebion i'w gweld yn llyfr cyntaf y Beibl, Genesis.

**Mae "Genesis" yn golygu "Dechreuadau"**



ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 1: 1

C **Pa adnod yn y Darlleniad o'r Beibl sy'n sôn am y dechreuad?** Adnod ______ 1

C **Sut olwg oedd ar y byd yn y dechrau?** 1

______

C **Ar ddiwrnod cyntaf y creu, beth ddywedodd Duw? Ticiwch yr ateb cywir.** 1

"BYDDED . . .

| | |
|---|---|
| " DŴR" ☐ | "HEULWEN" ☐ |
| "BYWYD" ☐ | "GOLAU" ☐ |

C **Ysgrifennwch yr adnod sy'n mynd gyda'r llun isod.** 2

**nos & dydd**

______
______
______
______
______

## CHWILAIR

Mae wyth gair o'r Darlleniad o'r Beibl wedi'u cuddio yn y chwilair. Maen nhw'n rhedeg i fyny, i lawr, ar draws ac am yn ôl. Rydym wedi rhoi llythyren gyntaf pob gair i'ch helpu.

**Llanwch y bylchau a rhowch gylch am y geiriau yn y CHWILAIR.**
Mae'r ddau gyntaf wedi'u gwneud i'ch helpu.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| H | W | Y | R | G | T |
| Th | O | L | S | O | U |
| R | T | W | C | L | A |
| A | I | S | R | E | I |
| E | R | O | B | U | S |
| A | C | N | I | N | Y |
| D | Y | Dd | B | I | Ll |

1 H W Y R
2 G O L E U N I
3 LL _ _ _ _ _
4 D _ _
5 B _ _ _
6 T _ _
7 D _ _ _ _
8 N _ _

6

C **Ysgrifennwch, YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, sut y gwnaeth Duw y tir a'r môr. (adnodau 9 a 10)**


2

C **Ysgrifennwch y rhain yn y drefn y gwnaeth Duw nhw.**



nos



Weithiau yn y Beibl, fe welwch chi'r gair "ffurfafen" sy'n golygu "awyr".


dydd


môr


tir

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|

5

Mae'n rhyfeddol meddwl bod Duw wedi gwneud y ddaear, y bydysawd a ni i gyd. Ond, er bod miliynau o bobl yn y byd, mae Duw yn nabod pob un ohonon ni. Efallai'ch bod chi'n teimlo'n fach iawn o'i gymharu â chread enfawr Duw ond mae pawb ohonom yn arbennig iawn iddo. Mae Duw wedi'ch gwneud chi ac mae'n eich caru chi. Beth am ddweud gweddi i ddiolch iddo? Mae'n dweud yn y Beibl bod Duw wedi gwneud y byd mewn chwe diwrnod.

2

C **Ysgrifennwch ddiwedd adnod 10 i ddangos beth oedd ymateb Duw i'w waith.**

cyfanswm